## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Ionawr 2003 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2<br><br>Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Ystyried y Cod Canllawiau Drafft i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd |

1. **Diben**

   Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi i hysbysu'r Pwyllgor bod y Cod Canllawiau drafft i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd ("y Cod Canllawiau drafft") wedi'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori, ac i roi copi o'r ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor.

2. **Crynodeb/Argymhellion**

   Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y Cod Canllawiau drafft.

3. **Yr Amserlen**

   Anfonwyd y Cod Canllawiau drafft at bob awdurdod lleol a phob gr•p perthnasol ym mis Hydref 2002, a daeth y cyfnod ymgynghori o dri mis i ben ar 17 Ionawr 2003.

4. **Y Cefndir**

   Mae gan awdurdodau tai lleol amryw o ddyletswyddau statudol mewn perthynas â phobl sydd ag angen llety arnynt, a phobl ddigartref, o dan ddarpariaethau Rhannau VI a VII o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") a Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 ("Gorchymyn 2001"). Cafodd y dyletswyddau hyn eu diwygio'n ddiweddar gan

Ddeddf Digartrefedd 2002 ("Deddf 2002").

Mae Adrannau 169 a 182 o Ddeddf 1996 yn nodi y dylai awdurdod tai lleol ystyried canllawiau o'r fath sy'n cael eu cyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â dyrannu llety, digartrefedd ac atal digartrefedd. Cafodd Cod Canllawiau statudol ei gyflwyno i'r diben hwn a chafodd ei ddiwygio ddiwethaf ym mis Chwefror 1997 a'i anfon at yr awdurdodau lleol. Yn y Cod Canllawiau, dywedwyd wrth yr awdurdodau y dylent roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn ond nad oeddent, serch hynny, yn disodli'r ddeddfwriaeth.

Yn sgil y newidiadau a wnaed yn ddiweddar i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digartrefedd a dyrannu llety gan Ddeddf 2002, roedd angen diwygio'r Cod Canllawiau statudol a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r Cod Canllawiau drafft diwygiedig yn egluro sut y dylai'r awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion polisi y mae ymgynghoriadau blaenorol wedi'u sefydlu (Y Gr•p Gwyntyllu Syniadau am Osod Tai ac adroddiad y Comisiwn ar Ddigartrefedd).

Ar 27 Chwefror 2001, gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol Orchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001. Mae Gorchymyn 2001, a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2001, yn ychwanegu at y disgrifiadau o bobl y mae'r awdurdod tai lleol yn eu derbyn fel pobl ag arnynt angen blaenoriaethol am lety.

Anfonodd Llywodraeth y Cynulliad Ganllawiau Dros Dro i bob gr•p perthnasol ym mis Gorffennaf 2001 gan ymgynghori ynghylch sut y dylid rhoi Gorchymyn 2001 ar waith, ac mae'r Cod Canllawiau drafft diwygiedig wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r materion a godwyd yn ystod y broses honno. Bu'r Comisiwn ar Ddigartrefedd hefyd yn ystyried y Canllawiau Dros Dro.

Derbyniodd Deddf Digartrefedd 2002 Gydsyniad y Frenhines ar 26 Chwefror 2002, ac ar 4 Gorffennaf 2002, gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Digartrefedd (Cychwyn) (Cymru) 2002. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio ac yn diddymu rhannau o Ran VI (dyrannu llety) a Rhan VII (darpariaethau mewn perthynas â digartrefedd) o Ddeddf Tai 1996.

Mae'r Cod Canllawiau drafft diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2002 i Ran VI (dyrannu llety) a Rhan VII (digartrefedd) o Ddeddf 1996.

Un o agweddau pwysig Deddf 2002 yw'r ddyletswydd a roddir ar bob awdurdod tai lleol i gynnal adolygiad o ddigartrefedd yn ei ardal ac i baratoi Strategaeth Leol ar Ddigartrefedd erbyn 30 Medi 2003. Bu'r Comisiwn Digartrefedd yn ystyried Canllawiau drafft ar Strategaethau Lleol ar Ddigartrefedd, sydd wedi'u hymgorffori (ar eu newydd wedd) yn y Cod Canllawiau. Mae Deddf 2002 hefyd yn dileu'r gofyniad i'r awdurdodau tai gadw cofrestr dai, yn rhoi mwy o sylw i ddewis y ceisydd wrth ddyrannu tai, yn diddymu gallu'r awdurdodau i fynnu bod unrhyw ddarpar breswylwyr yn bodloni amodau penodol ac yn rhoi'r un hawliau i bobl sy'n gwneud cais am drosglwyddo o un ty i dy arall â'r rhai a roddir i bobl sy'n gwneud

cais yn y lle cyntaf.

5. **Materion i'w Hystyried**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r Cod Canllawiau.

6. **Cydymffurfio**

Caiff y Cynulliad anfon canllawiau at yr Awdurdodau Lleol ar ddyrannu tai a digartrefedd o dan adrannau 169 a 182 o Ddeddf Tai 1996. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

7. **Themâu trawsbynciol**

Mae'r Cod Canllawiau yn ymdrin â llawer o themâu trawsbynciol, megis gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, camddefnyddio sylweddau ac addysg. Dosbarthwyd y Cod Canllawiau i'r Adrannau priodol yn Llywodraeth y Cynulliad ac i'r asiantaethau allanol priodol, megis Shelter Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

8. **Camau i’w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a rhoi ei farn am y Cod Canllawiau drafft i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, a gafodd ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori.

9. **Pwynt Cyswllt**

Geoff Marlow/Maureen Haire, Y Gangen Rheoli Tai a Digartrefedd, y Gyfarwyddiaeth Dai.